

Life in the UK

Cymru 2026

Ipsos

collective wellbeing Carnegie UK

Mynegai Bywyd yn y DU

Cefndir

Mae mynegai llesiant Bywyd yn y DU gan Carnegie UK yn mesur llesiant cyfunol ledled y DU. Mae'n seiliedig ar yr hyn y mae pobl yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn ei ddweud wrthym am eu bywydau.

Pwrpas y mynegai hwn yw dangos i lywodraethau a llunwyr penderfyniadau eraill werth canolbwyntio sylw ar y pethau sydd wir o bwys i bobl. Mae'n cynnig ffordd o ddeall a ydym, ar y cyd, yn byw bywydau gwell neu waeth dros amser; mae'n helpu i nodi lle mae cynnydd yn cael ei wneud, ac yn tynnu sylw at agweddau ar ein bywydau sydd angen ymyrraeth bolisi newydd neu barhaus..

Bu llawer o newidiadau yn fyd-eang, ac yn y DU, ers rhifyn 2025 o *Life in the UK*. O bwysigrwydd penodol i arolwg 2026 yw'r ffaith bod y gwaith maes wedi'i gynnal pythefnos ar ôl etholiadau seneddol yng Nghymru..

Dull

- Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer mynegai 2026 drwy arolwg 26 cwestiwn o 6,731 o ymatebwyr ledled y DU gan ddefnyddio Ipsos' KnowledgePanel, panel arolwg tebygolrwydd ar hap gan ddethol ar sail sampl ar hap o aelwydydd yn y DU. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 21ain a 27ain Mai 2026.

- Mae'r arolwg wedi bod yn weithredol ers 2023 gyda maint sampl tebyg bob blwyddyn, ac mae'r gwaith maes bob amser yn cael ei gynnal ar adeg debyg bob blwyddyn, ym mis Mai. Dyma faint y samplau yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn:
  - 2023: 531
  - 2024: 531
  - 2025: 686
  - 2026: 519

- Cafodd y samplau eu trefnu er mwyn cyflawni cynrychiolaeth resymol o'r ymatebwyr yn ôl oedran, addysg ac ethnigrwydd. Yn benodol, cynyddwyd nifer yr unigolion o leiafrifoedd ethnig er mwyn hwyluso dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd ar lefel y DU.

- Mae cwestiynau wedi'u categoreiddio i bedwar maes i fesur llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd pobl. Mae cyfartaledd y sgorau hyn yn arwain at y sgôr llesiant cyfunol gyffredinol.

- Mae sgôr y mynegai llesiant cyfunol cyffredinol a sgorau'r meysydd llesiant â gwerth rhwng 0 a 100. Dylid nodi bod yr uchod yn sgorau deilliedig ac nid yn ganrannau.

- Dadansoddwyd yr holl sgorau llesiant cyfunol, sgorau meysydd, a chwestiynau unigol i gymharu agweddau ar fywyd ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol rannau o'r DU.

- Defnyddir dadansoddiad atchweliad i helpu i ddeall pa nodweddion demograffig sydd fwyaf cysylltiedig â llesiant cyfunol yn gyffredinol ac â llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a democrataidd yn benodol. Drwy gydol yr adroddiad, mae'r rhestrau o ffactorau demograffig sy'n gysylltiedig â llesiant wedi'u trefnu yn ôl cryfder y cyd-effeithiant atchweliad, gyda'r cryfaf yn gyntaf.

- Eleni, mae grwpiau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad atchweliad nad oeddent wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn yn y blynyddoedd blaenorol. Y rhain yw: crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, lefel cymhwyster addysgol, a statws gwaith. Pan ddaw'r dadansoddiad ychwanegol hwn o hyd i wahaniaethau sy'n cyd-fynd â phrofion ystadegol, dangosir y rhain. Mewn rhai achosion, mae'r dadansoddiad ychwanegol wedi newid cryfder y cysylltiadau rhwng ffactorau demograffig a sgorau llesiant, felly ni ddylid eu cymharu yn uniongyrchol â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol.

- Drwy gydol yr adroddiad, cynhaliwyd profion o ran arwyddocâd ystadegol, a gafodd eu profi i 95%, sy'n golygu y gallwn fod â lefel uchel o hyder bod unrhyw newidiadau'n cynrychioli newidiadau ystyrlon dros amser neu wahaniaethau rhwng grwpiau o bobl.

- Nid yw'r graffiau'n dangos arwyddocâd ystadegol, ac nid ydynt yn dangos yr holl opsiynau ymateb i gwestiynau chwaith, sy'n golygu nad yw'r canrannau'n cyfateb i 100%. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth fwy manwl hon yn y tablau data ar ein gwefan.

Mae Carnegie UK wedi bod yn gweithio gydag asiantaeth ymchwil gymdeithasol flaenllaw Ipsos ers dechrau Bywyd yn y DU, ac Ipsos sy'n cynnal y gwaith maes a'r dadansoddiad o'r arolwg. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd i greu'r mynegai a'r adroddiad technegol llawn ar gael yma.

Mae Carnegie UK wedi ymrwymo i ddilyn egwyddorion y Côd Ymarfer ar gyfer Ystadegau wrth gynhyrchu ein mynegai Bywyd yn y DU. Rydym yn amlinellu sut yr ydym yn cadw at yr egwyddorion hyn yn ein Datganiad Gwirfoddol Cydymffurfio.

Mae Carnegie UK yn gweithio i roi llesiant wrth wraidd penderfyniadau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg annibynnol ac awdurdodol o'n llesiant cyfunol yn y DU yn 2026. Rydym yn gobeithio ei fod yn hyrwyddo ffordd well o fesur cynnydd cymdeithasol ac yn tynnu sylw at le mae angen ymyrraeth polisi yn frys.






HANDMADE









Cynnwys

Cyflwyniad: Bywyd yn y DU – Cymru 2026 6

Ein llesiant cyfunol yng Nghymru yn 2026 7

Lles cymdeithasol yng Nghymru 2026 10
› Crynodeb 15

Lles economaidd yng Nghymru 2026 16
› Crynodeb 21

Lles amgylcheddol yng Nghymru 2026 22
› Crynodeb 27

Lles democrataidd yng Nghymru 2026 28
› Crynodeb 36

Tabl crynodeb o sgoriau parth yn ôl nodweddion demograffig allweddol 38

Cyflwyniad: Bywyd yn y DU – Cymru 2026

Dyma'r rhifyn diweddaraf o'n mynegai 'Bywyd yn y DU – Cymru', a chan fod gennym dueddiadau data sy'n cwmpasu pedair blynedd, gallwn edrych ar y sefyllfa dros gyfnod ychydig yn hirach o ran sut mae pobl ledled Cymru yn byw.

Allan o sgôr bosibl o 100, mae llesiant cyfunol Cymru yn 2026 yn **61**, sy'n debyg i'r sefyllfa yn 2025. Eleni hefyd, ni welwyd unrhyw newidiadau sylweddol i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol na democrataidd pobl yng Nghymru.

Fodd bynnag, bu newidiadau o fewn y sgoriau maes ehangach; rhai'n gadarnhaol ac eraill yn negyddol. Bu cynnydd pryderus dros amser yn y gyfran o bobl a nododd eu bod wedi profi gwahaniaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – ffigur sy'n 11 pwynt canran yn uwch nag yr oedd dair blynedd yn ôl.

Mae lefel y boddhad â chyfleoedd gwaith lleol bron wedi haneru yn yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae gan bobl fwy o ymddiriedaeth mewn llywodraethau, ac maent yn teimlo eu bod yn fwy abl i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Ein cenhadaeth yn Carnegie UK yw sicrhau bod gan bawb yn y DU ac Iwerddon yr hyn sydd ei angen arnynt i fyw'n dda gyda'i gilydd, nawr ac yn y dyfodol. Gobeithiwn y bydd y mynegai hwn yn tynnu sylw at y meysydd yng Nghymru lle mae angen newid ac ymyrraeth bolisi fwyaf, er mwyn helpu i symud tuag at y nod hwnnw. Yn anad dim, gobeithiwn y bydd yn ysbrydoli'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau i wreiddio mesur lles effeithiol yn eu harferion gwaith, ac i ddefnyddio'r data hwnnw i helpu i gyflawni gwelliannau ystyrlon i fywydau pobl.

Mae llywodraeth newydd yng Nghaerdydd yn cynnig cyfle ar gyfer gweithredu o newydd a pharhaus, er mwyn rhoi lles hirdymor pobl Cymru wrth wraidd y broses o lunio polisïau. Gwyddom, gyda ffocws strategol o'r fath ar lywodraethu, fod cynnydd yn bosibl.

Sarah Davidson
Prif Swyddog Gweithredol, Carnegie UK



Ein llesiant cyfunol yng Nghymru 2026

Mae llesiant cyfunol yn ymwneud â phawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt i fyw'n dda yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n mynd y tu hwnt i hapusrwydd neu iechyd unigolyn. Yn hytrach, mae'n edrych ar y darlun cyfannol, mwy: sut mae ein cymdeithas, ein heconomi, ein hamgylchedd a'n democratiaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl a chymunedau.




Y sgôr gyffredinol ar gyfer llesiant cyfunol yng Nghymru yn 2026 yw **61** allan o 100 posibl.

Er bod pob sgôr wedi symud un pwynt neu fwy ers 2025, nid yw'r newidiadau hyn wedi bod yn ystadegol arwyddocaol yng Nghymru.

Mae llesiant cyfunol a phob maes wedi'u siapio gan amrywiaeth eang o ffactorau, y mae pob un ohonynt yn cymryd amser i siapio a chael effaith. Mae ein canfyddiadau'n dangos bod cynnydd cadarnhaol ystyrlon ar draws meysydd eto i ddigwydd yng Nghymru.

Ffigur 1: Canlyniadau 'Life in the UK' yng Nghymru ers 2023



Er bod y sgorau wedi newid ychydig dros amser, nid yw'r un o'r newidiadau hyn yn ystadegol arwyddocaol ar y lefel 95%.

Deall beth sy'n dylanwadu ar lesiant cyfunol

Mae'r diffyg newid sy'n ystadegol arwyddocaol yn y sgoriau eleni yn awgrymu bod llesiant cyfunol yng Nghymru yn llonydd.

Mae'r mynegai yn dangos bod pobl yn profi lefelau lles gwahanol iawn yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, a bod bywyd yng Nghymru yn dal i gael ei lunio gan anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau.

Yn 2026, mae'r ffactorau canlynol yn sefyll allan fel rhai sy'n arbennig o arwyddocaol wrth ragweld sgôr llesiant cyfunol is neu uwch yng Nghymru:

- **Bod yn anabl.** Mae gan bobl anabl sgôr llesiant cyfunol o **52**, 12 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai nad ydynt yn anabl (**64**).
- **Incwm aelwyd is.** Mae gan bobl ag incwm aelwyd o dan £26,000 y flwyddyn sgôr llesiant cyfunol o **54**, 12 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai y mae eu hincwm aelwyd blynyddol rhwng £52,000 a £99,999 (**66**).
- **Bod yn 55 oed a hŷn.** Mae gan bobl 55 oed a hŷn sgôr llesiant cyfunol o **65**, saith pwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer y rhai 16 i 34 oed (**58**).[1]
- **Bod yn raddedig.** Mae gan raddedigion sgôr llesiant cyfunol o **65**, chwe phwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer pobl nad ydynt yn raddedigion (**59**).

Mae'r ffactorau canlynol hefyd yn ddylanwadau nodedig ar lesiant cyfunol:


- **Byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig**. Mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (IMD1) sgôr llesiant cyfunol o **53**, 15 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (**68**).[2]
- **Plant yn yr aelwyd.** Mae gan bobl sydd â phlant o dan 16 oed yn eu haelwyd sgôr llesiant cyfunol o **56**, saith pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai sydd heb blant yn yr aelwyd (**63**).[3]

1 Roedd maint y sampl ar gyfer pobl 16 i 34 oed yn llai nag ar gyfer grwpiau eraill – sef 56 o bobl – felly dylid ystyried y canfyddiadau gyda gofal.

2 Mae Mynegeion Amddifadedd Lluosog (IMD) yn fesur o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, sefydlog yn y DU. Mae IMD yn dosbarthu'r ardaloedd hyn yn bum cwintil yn seiliedig ar anfantais gymharol; cwintil 1 ('IMD1') yw'r mwyaf amddifadus, a cwintil 5 ('IMD5') yw'r lleiaf amddifadus. Roedd meintiau'r sylfeini ar gyfer y rhai yn IMD1 (98) ac IMD5 (97) yn llai nag ar gyfer grwpiau eraill; felly, dylid ystyried y canfyddiadau gyda gofal.

3 Roedd maint y sylfaen ar gyfer pobl â phlant yn yr aelwyd yn llai nag ar gyfer grwpiau eraill – sef 78 o bobl – felly dylid trin y canfyddiadau gyda gofal.

Ffigur 2. Ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar lesiant cyfunol






Lles cymdeithasol yng Nghymru 2026

Mae gennym i gyd y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom i ffynnu.





Mae Cymru yn sgorio 72 allan o 100 posibl am les cymdeithasol.

Mae lles cymdeithasol yn ymwneud â gallu pawb i wireddu eu potensial a chyfrannu at gymdeithas, oherwydd bod eu hanghenion sylfaenol wedi'u diwallu. Mae ein hanghenion sylfaenol yn cynnwys teimlo'n iach, cael mynediad at wasanaethau, teimlo'n ddiogel yn ein cymunedau a theimlo cysylltiad â hwy, yn ogystal â bod yn rhydd rhag gwahaniaethu.

Er mwyn pennu tueddiadau mewn lles cymdeithasol ledled Cymru, gofynnwyd cwestiynau am fynediad at wasanaethau, perthnasoedd cymunedol, diogelwch a chydlyniant cymunedol, ac iechyd ac iechyd meddwl a hunan-adroddwyd.


Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau **uchel** o les cymdeithasol yng Nghymru yn 2026 yw:

- Pobl 55 oed a hŷn, sydd â sgôr lles cymdeithasol o **77** – sef 10 pwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer y rhai rhwng 16 a 34 oed (**67**).

Y grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau **isel** o les cymdeithasol yng Nghymru yn 2026 yw:

- Pobl anabl, sydd â sgôr lles cymdeithasol o **60** – sef 17 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (**77**).

Ffigur 3. Ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar les cymdeithasol




Lles cymdeithasol: dadansoddiad o'r canlyniadau

Mae profiadau o wahaniaethu wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae canfyddiadau o ddiogelwch cymunedol yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd y DU.

Mae'r ffigurau isod yn dangos y tueddiadau ers 2023 yn y cwestiynau a ofynnwyd gennym ynghylch llesiant cymdeithasol.

Ffigur 4. Canfyddiadau o iechyd cyffredinol ac iechyd meddwl




C: Sut mae eich iechyd yn gyffredinol? A sut fyddech chi'n disgrifio eich iechyd meddwl yn gyffredinol?

- Mae chwech allan o ddeg (61%) o bobl yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda – chwe phwynt canran yn is na chyfartaledd y DU.
- Mae un o bob deg (11%) o bobl yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn wael – sefyllfa sy'n debyg i 2025, ond sy'n bedwar pwynt canran yn uwch nag yn 2024.



Ffigur 5. Cydlyniant cymunedol



C: Pa mor ddiogel ydych chi'n teimlo wrth gerdded ar eich pen eich hun yn eich cymdogaeth leol ar ôl iddi nosi?


C: I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? Pe bawn i ar fy mhen fy hun ac angen cymorth, gallwn ddibynnu ar rywun yn y gymdogaeth hon i fy helpu.

C: I ba raddau, os o gwbl, y cawsoch eich trin yn annheg neu eich gwahaniaethu yn eich erbyn yn bersonol yn ystod y 12 mis diwethaf?

- Mae tri chwarter (76%) o bobl yn teimlo'n ddiogel yn cerdded ar eu pen eu hunain yn eu cymdogaeth ar ôl iddi nosi – ffigur sydd bum pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU.
- Nid yw un o bob saith (15%) o bobl yn teimlo y gallent ddibynnu ar rywun yn eu cymdogaeth i'w helpu; mae hyn yn debyg i'r llynedd, ond yn uwch nag yn 2024.
- Adroddodd 44% o bobl eu bod wedi profi gwahaniaethu yn y 12 mis cyn yr arolwg – sef 11 pwynt canran yn uwch nag yn 2023.



Ffigur 6. Mynediad at wasanaethau[4]



Cwestiynau: Gan ystyried mynediad corfforol, pellter, oriau agor a phethau tebyg, pa mor hawdd neu anodd yw hi i chi: Gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus (bws, metro, tram, trên, ac ati) sy'n gallu mynd â chi i'r lle rydych chi eisiau mynd; ymweld â siop fwyd neu archfarchnad yn bersonol; a chael apwyntiad gyda meddyg teulu ar adeg pan fydd ei angen arnoch.

- Mae 28% o bobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus sy'n mynd â nhw i'r lleoedd y mae angen iddynt fynd iddynt – ffigur sydd 10 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y DU.
- Mae bron un o bob deg o bobl (9%) yn ei chael hi'n anodd mynd i siop fwyd neu archfarchnad yn bersonol – ffigur sy'n bedwar pwynt canran yn uwch na'r llynedd.
- Mae ychydig yn llai na hanner (46%) y bobl yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad gyda meddyg teulu ar adeg pan fydd ei angen arnynt – gwelliant o un pwynt canran ar ddeg ers 2023.

4 Nid yw'r cwestiynau sy'n ymwneud â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a apwyntiadau meddyg teulu yn cyfrannu at y sgôr lles cymdeithasol cyffredinol. Gweler yr adroddiad technegol am ragor o fanylion.


Crynodeb

Mae sgôr lles cymdeithasol Cymru o **72** allan o 100 yn 2026 yn debyg i'r hyn a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Er ei fod ddau bwynt yn is na'r hyn a welwyd yn 2023, 2024 a 2025, nid yw hwn yn ostyngiad sy'n ystyrlon yn ystadegol, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn parhau i'w fonitro. Hefyd, nid yw sgôr lles cymdeithasol Cymru yn uwch na chyfartaledd y DU mwyach, sef y sefyllfa a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Ychydig o newidiadau sydd wedi bod i lawer o'r ffactorau sylfaenol sy'n sail i les cymdeithasol. Mae iechyd cyffredinol yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU, ond nid oes unrhyw welliannau na dirywiadau parhaus wedi digwydd; mae iechyd meddwl hefyd, i raddau helaeth, yn adlewyrchu sgoriau blynyddoedd blaenorol. Ar nodyn cadarnhaol, mae llai o bobl yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad gyda meddyg teulu pan fydd ei angen arnynt, o'i gymharu â 2023.

Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yng nghyfran y bobl sy'n profi gwahaniaethu ers arolwg cyntaf Bywyd yn y DU yn 2023. Yn yr un modd, bu dirywiad o ran pa mor hawdd y mae pobl yn ei chael hi i gyrraedd siop groser neu archfarchnad.

Ffigur 7. Sgoriau lles cymdeithasol dros amser






Lles economaidd yng Nghymru 2026

Mae gan bob un ohonom safon byw sylfaenol weddus.

69





100





Mae Cymru yn sgorio 69 allan o 100 posibl am les economaidd.

Mae lles economaidd yn golygu bod gan bawb safon byw sylfaenol weddus a'u bod yn gallu ymdopi â siociau ariannol. Mae hyn yn cynnwys mynediad at incwm gweddus, fforddiadwyedd, gwydnwch ariannol, cyfleoedd gwaith a sgiliau.

Er mwyn nodi tueddiadau o ran lles economaidd ledled Cymru, gofynnom gwestiynau am sgiliau ac argaeledd swyddi, yn ogystal â fforddiadwyedd eitemau hanfodol fel bwyd a tanwydd.


Y bobl sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau **uchel** o les economaidd yng Nghymru yn 2026 yw:

- Pobl 55 a hŷn, sydd â sgôr llesiant economaidd o **75**, 11 yn uwch na'r sgôr ar gyfer y rhai 16 i 34 oed (**64**).
- Graddedigion, sydd â sgôr llesiant economaidd o **75**, naw pwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer pobl nad ydynt yn raddedigion (**66**).
- Dynion, sydd â sgôr llesiant economaidd o **70**, dau bwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer menywod (**68**).

Dyma'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau **isel** o lesiant economaidd yng Nghymru yn 2026:

- Pobl ag incwm aelwyd blynyddol o dan £26,000, sydd â sgôr llesiant economaidd o **55**, 23 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai ag incwm blynyddol sy'n uwch na £52,000 (**78**).
- Pobl anabl, sydd â sgôr llesiant economaidd o **59**, 13 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai nad ydynt yn anabl (**72**).
- Pobl sydd ag un neu fwy o blant dan 16 oed yn eu haelwyd, sydd â sgôr llesiant economaidd o **62**, naw pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai sydd heb blant yn eu haelwyd (**71**).
- Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (IMD1), sydd â sgôr lles economaidd o **58** – sef 19 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (**77**).

Ffigur 8. Ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar les economaidd




Lles economaidd: dadansoddiad o'r canlyniadau

Mae'r cwestiynau sy'n sail i les economaidd i raddau helaeth heb newid. Fodd bynnag, mae boddhad â chyfleoedd gwaith lleol wedi cyrraedd y lefel isaf a gofnodwyd erioed gan 'Life in the UK' yng Nghymru.

Mae'r ffigurau isod yn dangos y tueddiadau ers 2023 o ran y cwestiynau rydym yn eu gofyn ynglŷn â lles economaidd.


Ffigur 9. Canfyddiadau ynghylch addysg, sgiliau a chyfleoedd gwaith lleol



C: Pa mor fodlon ydych chi gyda'ch addysg a'ch sgiliau?
C: Gan adael o'r neilltu a ydych chi'n bersonol yn chwilio am swydd ai peidio, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar argaeledd cyfleoedd gwaith i bobl yn eich ardal leol?

- Mae pedwar o bob pump (79%) o bobl yng Nghymru yn fodlon ar eu haddysg a'u sgiliau, sy'n debyg i flynyddoedd blaenorol.
- Mae llai nag un o bob pump (17%) o bobl yng Nghymru yn fodlon ar argaeledd swyddi yn eu hardal leol. Mae hyn wyth pwynt canran yn is na'r llynedd, tri-ar-ddeg pwynt canran yn is na 2023, a phum pwynt canran yn is na chyfartaledd y DU.


Ffigur 10. Fforddiadwyedd eitemau hanfodol



C: Mae rhai pethau na all llawer o bobl fforddio eu cael, hyd yn oed os hoffent eu cael. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Gall fy aelwyd fforddio prynu digon o fwyd i bawb yn yr aelwyd; Gall fy aelwyd fforddio cadw ein cartref yn ddigon cynnes (gan gynnwys yn ystod misoedd y gaeaf); Gall fy aelwyd fforddio talu cost annisgwyl, ond angenrheidiol, o £850.

- Mae 7% o bobl yng Nghymru yn methu fforddio prynu digon o fwyd i bawb yn yr aelwyd; mae hyn yn debyg i flynyddoedd blaenorol ac i gyfartaledd y DU.
- Ni all un o bob saith (14%) o bobl yng Nghymru fforddio cadw eu cartref yn ddigon cynnes, yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol a chyfartaledd y DU.
- Mae bron traean o bobl yng Nghymru (32%) yn dweud na allant fforddio talu cost annisgwyl ond angenrheidiol o £850, yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

Ffigur 11. Fforddiadwyedd gweithgareddau hamdden



C: Mae rhai pethau na all llawer o bobl eu fforddio, hyd yn oed os hoffent eu cael. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Gall fy aelwyd fforddio cymdeithasu â ffrindiau neu deulu y tu allan i'r cartref unwaith y mis os ydym yn dymuno gwneud hynny; Gall fy aelwyd fforddio talu am wyliau blynyddol o wythnos i ffwrdd o'r cartref (heb aros gyda pherthnasau).

- Mae pedwar o bob pump (80%) o bobl yng Nghymru yn cytuno y gallant fforddio cymdeithasu y tu allan i'w cartref unwaith y mis os dymunant, sy'n debyg i flynyddoedd blaenorol.
- Does dim modd i chwarter (24%) o bobl fforddio talu am wyliau blynyddol o wythnos i ffwrdd o'r cartref – sefyllfa sy'n debyg i flynyddoedd blaenorol.




Crynodeb

Mae lles economaidd yng Nghymru yn parhau i fod yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Fel gyda lles cymdeithasol, mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau sy'n sail i les economaidd yn parhau i fod yn sefydlog, neu dim ond amrywiadau bach a welwyd ynddynt eleni.

Yn gyffredinol, mae lles economaidd yng Nghymru hefyd yn cyd-fynd i raddau helaeth â lles y DU yn ei chyfanrwydd; ychydig o wahaniaethau sydd i'w gweld mewn meysydd fel gallu pobl i fforddio pethau sylfaenol bywyd, a'u boddhad ag addysg a sgiliau.

Yr eithriad yw'r boddhad â chyfleoedd gwaith; mae hwn wedi dangos tuedd ar i lawr ers i *Life in the UK* ddechrau cyhoeddi adroddiadau yn 2023, ac mae wedi gostwng yn fwy sylweddol ers 2025. Ar hyn o bryd, dim ond 17% o bobl yng Nghymru sy'n fodlon ar argaeledd cyfleoedd gwaith yn eu hardal leol, o'i gymharu â 30% dair blynedd yn ôl. Mae'r patrwm hwn i'w weld ar draws rhan helaeth o'r DU, ond mae'n fwy amlwg yng Nghymru.

Ffigur 12. Sgoriau lles economaidd dros amser



Lles amgylcheddol yng Nghymru 2026

Rydym i gyd yn byw o fewn adnoddau naturiol y blaned.



64


100











Mae Cymru yn sgorio 64 allan o 100 posibl am les amgylcheddol.

Mae llesiant amgylcheddol yn golygu bod gan bawb fynediad at fannau gwyrdd a glas a'n bod yn byw o fewn adnoddau naturiol y blaned, gan ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn pennu tueddiadau mewn llesiant amgylcheddol ledled Cymru, gwnaethom ofyn cwestiynau am fynediad i barciau lleol, afonydd a mannau gwyrdd a glas eraill ac ansawdd y rhain, ac am lygredd sŵn, llygredd aer a sbwriel mewn ardaloedd lleol. Gwnaethom hefyd ofyn am lefelau boddhad gydag ymdrechion i ddiogelu'r amgylchedd.


Dyma'r bobl fwyaf tebygol o brofi lefelau **uchel** o lesiant amgylcheddol yng Nghymru yn 2026:

- Pobl yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (IMD5), sydd â sgôr llesiant amgylcheddol o **72** ar gyfartaledd, 18 pwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (**54**).
- Pobl 55 oed a hŷn, sydd â sgôr llesiant amgylcheddol o **69** ar gyfartaledd, 10 pwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer pobl ifanc 16 i 34 oed (**59**). Mae gan bobl rhwng 35 a 54 oed hefyd sgôr llesiant amgylcheddol uwch o **61**.
- Pobl sy'n byw mewn ardal wledig, sydd â sgôr llesiant amgylcheddol o **71**, 11 pwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer y rhai mewn ardaloedd trefol (**60**).

Dyma'r grŵp sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau **isel** o lesiant amgylcheddol yng Nghymru yn 2026:

- Pobl anabl, sydd â sgôr llesiant amgylcheddol o **56**, 11 pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (**67**).

Ffigur 13. Ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar les amgylcheddol






Lles amgylcheddol: dadansoddiad o'r canlyniadau

Mae'r cwestiynau sy'n sail i les amgylcheddol wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth yng Nghymru, er bod problemau'n parhau i fod yn gyffredin ac mae'r canlyniadau'n dal i fod yn wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae'r ffigurau isod yn dangos y tueddiadau ers 2023 yn y cwestiynau rydym yn eu gofyn ynglŷn â lles amgylcheddol.


Ffigur 14. Materion yn ymwneud ag ansawdd yr amgylchedd lleol



Cwestiynau: Meddyliwch am eich cymdogaeth leol. A oes gennych broblemau mawr, cymedrol, bach, neu ddim problemau o gwbl, gyda'r canlynol? Sŵn; ansawdd aer; sbwriel neu wastraff ar y stryd. Mae problemau mawr, cymedrol a bach yn cyfateb i 'ydy/oes'; mae 'dim problemau' yn cyfateb i 'nac ydy/nag oes'.

- Mae ychydig dros dri chwarter (61%) o bobl yn dweud eu bod wedi profi problemau gyda llygredd sŵn yn eu hardal leol. Mae hyn 10 pwynt canran yn uwch na'r sgôr yn yr Alban, ac wyth pwynt canran yn uwch na'r sgôr yng Ngogledd Iwerddon.
- Mae bron hanner (48%) y bobl yn profi problemau gydag ansawdd aer, 12 pwynt canran yn uwch na'r sgôr yn yr Alban ond saith pwynt canran yn is na'r sgôr yn Lloegr. Erbyn hyn mae pobl yng Nghymru yr un mor debygol o brofi problemau gydag ansawdd aer â pheidio.
- Mae 85% o bobl yng Nghymru yn cael problemau gyda sbwriel yn eu hardal leol, yn debyg i gyfartaledd y DU.

Ffigur 15. Canfyddiad o ofodau cyhoeddus, gwyrdd neu agored lleol ac ymdrechion i warchod yr amgylchedd yn y DU



C: Meddyliwch am y gofod cyhoeddus, gwyrdd neu agored yn eich ardal leol sydd agosaf at eich cartref – er enghraifft, parc, cefn gwlad, coedwig, ardal chwarae, llwybr camlas, glan afon neu draeth. Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gydag ansawdd y gofod hwnnw? Gallai hyn gynnwys pa mor dda y mae'n diwallu eich anghenion, a yw'n ddiogel ac yn ddeniadol, a yw'n rhydd o sbwriel neu fathau eraill o annibendod, ac ansawdd y cyfleusterau (os oes rhai).

C: Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r ymdrechion i warchod yr amgylchedd yn y DU?

- Mae saith o bob deg (70%) o bobl yng Nghymru yn fodlon ag ansawdd y man cyhoeddus, gwyrdd agored yn eu hardal leol.
- Mae tri o bob deg (29%) o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon ag ymdrechion i ddiogelu'r amgylchedd yn y DU.




Crynodeb

Ar **64**, mae lles amgylcheddol yng Nghymru wedi aros yn gymharol sefydlog ers i *Life in the UK* ddechrau adrodd yn 2023. Fodd bynnag, er bod Cymru wedi dangos lefel uwch o les amgylcheddol na chyfartaledd y DU yn y blynyddoedd blaenorol, mae dirywiadau bach yn golygu nad yw hyn yn wir bellach yn 2026.

Mae problemau sy'n ymwneud â materion fel llygredd sŵn, ansawdd aer, a sbwriel neu wastraff yn ardaloedd lleol pobl yn parhau i fod yn gyffredin; yn wir, mae mwy o bobl yn anfodlon nag yn fodlon ar yr ymdrechion i warchod yr amgylchedd yn y DU. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar ansawdd y mannau cyhoeddus, gwyrdd neu agored yn eu hardaloedd lleol.

Ffigur 16. Sgoriau lles amgylcheddol dros amser





Lles democrataidd yng Nghymru 2026

Mae gan bob un ohonom lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnom.



100







Mae gan Gymru sgôr o 39 allan o 100 posibl ar gyfer llesiant democrataidd.

Mae llesiant democrataidd yn golygu bod gan bawb lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn golygu bod ag arweinwyr lleol a chenedlaethol sy'n cefnogi cyfranogiad, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn annog amrywiaeth.

Er mwyn deall llesiant democrataidd yng Nghymru yn 2026, gwnaethom ofyn cwestiynau am lefelau ymddiriedaeth mewn llywodraeth(au) lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol eraill, a chanfyddiadau o allu personol i ddylanwadu ar benderfyniadau.


Er eu bod yn sylweddol isel yn gyffredinol, a'r isaf o unrhyw un o'n pedwar maes llesiant, dyma'r bobl sydd â'r lefelau **uchaf** o lesiant democrataidd yng Nghymru yn 2026:

- Graddedigion, sydd â sgôr llesiant democrataidd o **44** ar gyfartaledd, saith pwynt yn uwch na'r sgôr ar gyfer pobl nad ydynt yn raddedigion (**37**).

Dyma'r grŵp sydd fwyaf tebygol o brofi lefelau **isel** o lesiant democrataidd yng Nghymru yn 2026:

- Pobl ag incwm aelwyd blynyddol o dan £26,000, sydd â sgôr llesiant democrataidd o **35**, saith pwynt yn is na'r sgôr ar gyfer y rhai sydd ag incwm aelwyd blynyddol o fwy na £52,000 y flwyddyn (**42**).

Ffigur 17. Ffactorau sy'n cael yr effaith fwyaf ar les democrataidd






Lles democrataidd: dadansoddiad o'r canlyniadau

Er ei bod yn isel, mae ymddiriedaeth yn y llywodraeth a chanfyddiadau o allu pobl i ddylanwadu ar benderfyniadau wedi gwella, ond mae ymddiriedaeth mewn rhai sefydliadau eraill yn gostwng.

Mae'r ffigurau isod yn dangos y tueddiadau ers 2023 yn y cwestiynau a ofynnwyd gennym ynghylch llesiant democrataidd.

Ffigur 18. Canfyddiadau o'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau[5]




C: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU gyfan; Gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru; Gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol.

- Dim ond 8% o bobl sy'n cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar y DU, er bod hyn chwe phwynt canran yn uwch nag yn 2023.
- Dim ond 14% o bobl sy'n credu y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru, er bod hyn chwe phwynt canran yn uwch na'r llynedd.
- Mae pobl ychydig yn fwy tebygol o deimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, er mai dim ond ychydig llai nag un o bob pump (18%) sy'n cytuno o hyd – sefyllfa sy'n debyg i flynyddoedd blaenorol.

5 Nid yw'r cwestiwn sy'n ymwneud â dylanwad yng Nghymru yn cyfrannu at y sgôr lles democrataidd cyffredinol. Gweler yr adroddiad technegol am ragor o fanylion.

Ffigur 19. Ymddiriedaeth mewn llywodraethau a gwleidyddion[6]




C: Ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' a 10 yn golygu 'yn llwyr', i ba raddau rydych chi'n ymddiried yn yr unedau canlynol? Llywodraeth y DU; ASau; y cyngor lleol ar gyfer eich ardal. Mae sgoriau o 1 i 3 yn dynodi lefel isel o ymddiriedaeth; 4 i 7 yn dynodi lefel ganolig; ac 8 i 10 yn dynodi lefel uchel.

- Mae gan dros hanner (53%) y bobl yng Nghymru ymddiriedaeth isel yn Llywodraeth y DU, yr un peth â'r llynedd, er bod y gyfran ag ymddiriedaeth uchel wedi cynyddu ers 2024.
- Er mai dim ond 5% o bobl yng Nghymru sydd ag ymddiriedaeth uchel mewn ASau, mae hyn wedi cynyddu ers 2023.
- Ychydig yn llai na thraean (31%) o bobl yng Nghymru sydd â lefel isel o ymddiriedaeth yn eu cyngor lleol.



6 Nid yw'r cwestiwn sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth mewn ASau yn cyfrannu at y sgôr lles democrataidd cyffredinol. Gweler yr adroddiad technegol am ragor o fanylion.

Ffigur 20. Ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru a gwleidyddion[7]




C: Ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' a 10 yn golygu 'yn llwyr', i ba raddau rydych chi'n ymddiried yn yr unedig canlynol? Llywodraeth Cymru; Aelodau o'r Senedd (ASau). Mae sgoriau o 1 i 3 yn dynodi lefel isel o ymddiriedaeth; 4 i 7 yn lefel ganolig; ac 8 i 10 yn lefel uchel.

- Mae gan ychydig dros draean (36%) ymddiriedolaeth isel yn Llywodraeth Cymru, gwelliant saith pwynt canran ers y llynedd ond yr un peth ag yn 2023.
- Mae gan ychydig o dan 1 o bob 10 (8%) o bobl ymddiriedaeth uchel yn aelodau Senedd Cymru, yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol.

7 Nid yw'r cwestiwn sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd yn cyfrannu at y sgôr lles democrataidd cyffredinol. Gweler yr adroddiad technegol am ragor o fanylion.

Ffigur 21. Ymddiriedaeth mewn sefydliadau




Cwestiynau: Gan ystyried bod 1 yn golygu 'dim o gwbl' a 10 yn golygu 'yn llwyr', i ba raddau rydych chi'n ymddiried yn yr unedau canlynol? Yr heddlu; y system gyfreithiol a'r llysoedd; banciau. Mae sgoriau o 1 i 3 yn dynodi lefel isel o ymddiriedaeth; 4 i 7 yn dynodi lefel ganolig; ac 8 i 10 yn dynodi lefel uchel o ymddiriedaeth.

Mae ymddiriedaeth mewn sefydliadau sifil wedi aros yn weddol debyg ers i'r arolwg ddechrau; mae bron un o bob pump (18%) yn nodi lefel isel o ymddiriedaeth yn yr heddlu a banciau, ac mae un o bob pedwar (25%) yn nodi lefel isel o ymddiriedaeth yn y system gyfreithiol a'r llysoedd.



Ffigur 22. Ymddiriedaeth mewn cyfryngau a thechnoleg[8]



C: Ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' a 10 yn golygu 'yn llwyr', i ba raddau rydych chi'n ymddiried yn yr unedau canlynol? Y cyfryngau newyddion (e.e. teledu, radio, papurau newydd); cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram, X, YouTube, TikTok); cwmnïau technoleg mawr (e.e. Google, Apple). Mae sgoriau o 1 i 3 yn dynodi lefel isel o ymddiriedaeth; 4 i 7 yn lefel ganolig; ac 8 i 10 yn lefel uchel.

- Mae ychydig yn llai na dau o bob pump (38%) o bobl yn rhoi lefel isel o ymddiriedaeth yn y cyfryngau newyddion; mae hyn yn debyg i flynyddoedd blaenorol ac i gyfartaledd y DU.
- Mae gan bron i ddwy ran o dair (64%) o bobl lefel isel o ymddiriedaeth mewn cyfryngau cymdeithasol – wyth pwynt canran yn uwch nag yn 2023. Dim ond 1% o bobl sydd â lefel uchel o ymddiriedaeth.
- Mae gan hanner (49%) o bobl lefel isel o ymddiriedaeth mewn cwmnïau technoleg mawr (e.e. Google neu Apple) – sef trittein pwynt canran yn uwch nag yn 2023.

8 Nid yw'r cwestiynau sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth mewn cyfryngau cymdeithasol a chwmnïau technoleg mawr yn cyfrannu at y sgôr lles democrataidd cyffredinol. Gweler yr adroddiad technegol am ragor o fanylion.

Crynodeb

Fel yn y blynyddoedd blaenorol ac fel mewn awdurdodaethau eraill, mae llesiant democrataidd, sydd â sgôr o **39**, yn parhau i fod yn llawer is na llesiant mewn meysydd bywyd eraill. Fodd bynnag, er na welwyd unrhyw newidiadau cyffredinol ar lefel maes, bu gwelliannau mewn rhai meysydd llesiant democrataidd.


Mae'n parhau i fod yn wir bod ychydig o bobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ond cafwyd gwelliannau bach, yn y Gymru gyfan ac ar lefel y DU. Yn yr un modd, er bod lefel uchel o ymddiriedaeth yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn anghyffredin (8% a 14%, yn y drefn honno), cafwyd rhywfaint o welliant.

Nid yw ymddiriedaeth mewn cynghorau lleol wedi newid, gyda thua thraean o bobl yn nodi ymddiriedaeth isel, a chyfran debyg i flynyddoedd blaenorol yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.

Mae cyfran y bobl nad ydynt yn ymddiried mewn cwmnïau technoleg mawr wedi cynyddu o gymharu â 2023 a 2024, ac mae'r ymddiriedaeth mewn cyfryngau cymdeithasol hyd yn oed yn is. Mae llawer o bobl hefyd yn dangos lefel isel o ymddiriedaeth yn y cyfryngau newyddion.

Mae ymddiriedaeth mewn sefydliadau sifil, fel yr heddlu a banciau, yn uwch nag mewn sefydliadau eraill y gofynnwn amdanynt; mae tua chwarter y bobl yn rhoi lefel uchel o ymddiriedaeth yn y naill a'r llall.

Ffigur 23. Sgoriau lles democrataidd dros amser



Llesiant cyfunol yn 2026: Crynodeb o'r sgorio



72
100
Lles cymdeithasol

69
100
Lles economaidd

64
100
Lles amgylcheddol

39
100
Lles democrataidd

61
100

Mae sgôr llesiant cyfunol Cymru yn 2026 yn 61 allan o 100 posibl.

Tabl crynodeb o sgoriau parth yn ôl nodweddion demograffig allweddol

		Lles cyfunol	Lles cymdeithasol	Lles economaidd	Lles amgylcheddol	Lles democrataidd
	Cyfanswm	**61**	**72**	**69**	**64**	**39**
Anabledd	Ddim yn anabl	64	77	72	67	41
	Anabl	52	60	59	56	34
Oedran	16-34 oed	58	67	64	59	41
	35-54 oed	58	72	64	61	36
	55 oed a hŷn	65	77	75	69	40
Incwm Aelwyd	£25,999 ac iau	54	67	55	60	35
	£26,000 i £51,999	62	75	72	64	38
	£52,000 i £99,999	66	77	78	67	42
Amddifadedd ardal	IMD1 (y lefel uchaf o amddifadedd)	53	65	58	54	35
	IMD2	59	71	67	59	38
	IMD3	63	76	70	68	39
	IMD4	62	72	72	67	37
	IMD5 (y lefel isaf o amddifadedd)	68	78	77	72	45
Rhywedd	Menywod	61	72	68	65	40
	Dynion	61	73	70	62	38
Plant	Dim plant	63	74	71	66	40
	Un plentyn neu fwy yn yr aelwyd	56	67	62	57	37
Trefoldeb	Byw yn y ddinas	59	70	67	60	38
	Byw yn y wlad	65	76	72	71	40
Addysg	Graddedig	65	76	75	66	44
	Heb radd	59	71	66	63	37
Crefydd	Crefyddol	62	74	70	65	40
	Dim crefydd	60	72	68	63	38
Gweithio	Amser llawn	62	75	71	64	39
	Ddim yn gweithio amser llawn	60	71	68	64	39

Roedd y meintiau sylfaen ar gyfer pobl rhwng 16 a 34 oed (56), IMD1 (98), IMD5 (97), a phobl sydd â phlant yn eu haelwyd (78) yn llai nag ar gyfer grwpiau eraill; felly, dylid bod yn ofalus wrth eu hystyried. Roedd y maint sylfaen ar gyfer Cymru o ran tenantiaid tai cymdeithasol a phreifat, pobl o gefndir lleiafrif ethnig (gan gynnwys lleiafrifoedd gwyn), a phobl sy'n LGB+, yn is na'r trothwy ar gyfer eu cynnwys mewn dadansoddiad ystadegol.


HMV







Life in the UK Cymru 2026









Carnegie UK Trust
Andrew Carnegie House
Pittencrieff Street
Dunfermline
Fife, Scotland
KY12 8AW
T +44 (0)1383 721445
www.carnegieuk.org.uk

ISBN: 978-1-917536-19-6

Incorporated by Royal Charter 1917
Registered Charity No: SC012799 operating in the UK
Registered Charity No: 20142957 operating in Ireland

Ipsos

collective wellbeing Carnegie UK